

Terminoleg

Mae cyflwyniad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod â newidiadau niferus i derminoleg sy'n ymwneud â thenantiaethau a chontractau yng Nghymru.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o rai o'r newidiadau allweddol hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim Rhentu Doeth Cymru neu ar Wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/rhentu-cartrefi-mae-cyfraith-tai-yn-newid

| Hen Derminoleg | | Disgrifiad Newydd |
|---|---|--|
| Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr neu Gytundeb Tenantiaeth | → | Contract Meddiannaeth Safonol Contractau Meddiannaeth Safonol fydd y math o gontract diofyn yn y sector rhentu preifat. Gall Contractau Safonol fod yn gontract cyfnodol neu'n gontract cyfnod penodol yn yr un modd ag y gall Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr. |
| Tenant | → | Deiliaid Contract Unigolyn sy'n rhentu ei gartref o dan denantiaeth neu drwydded, ac sydd felly'n ymrwymo i gontract gyda'r landlord. |
| Landlord Awdurdod Lleol neu Landlord Cymdeithasol Preswyl | → | Landlord Cymunedol Yn absenoldeb unrhyw beth arall, mae'r math hwn o landlord yn cyflwyno contract diogel. Yn gyffredinol, pa fath o landlord ydyw sy'n pennu pa fath o gontract y mae'r meddiannydd yn meddiannu'r eiddo oddi tano. |
| Pob landlord arall | → | Landlord Preifat Yn absenoldeb unrhyw beth arall, mae'r math hwn o landlord yn cyflwyno contract safonol. Byddai landlord annedd yng Nghymru nad yw'n 'landlord cymunedol' yn landlord preifat o dan y Ddeddf. |
| Cytundeb Tenantiaeth Ysgrifenedig | → | Datganiad Ysgrifenedig o Gontract Meddiannaeth O'r blaen, nid oedd yn rhaid ysgrifennu Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr; erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n rhaid ysgrifennu pob contract. |
| Tenantiaethau Byrddaliol Sicr 'Parod' | → | Contractau Enghreifftiol / Datganiad Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract O'r blaen byddech wedi gorfod prynu templed Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr o siop deunydd ysgrifennu neu gael un gan asiant neu gyfreithiwr, ond erbyn hyn mae'n bosib cael contract enghreifftiol gan Lywodraeth Cymru am ddim a'i ddiwygio (os oes angen) i gyd-fynd â'r sefyllfa. . |
| Telerau ac Amodau Tenantiaeth | → | Telerau'r Contract Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer 4 math o delerau : <ul style="list-style-type: none"> • "Telerau sylfaenol"; • "Telerau atodol"; • Telerau sy'n ymwneud â materion allweddol • "Telerau ychwanegol". Mae telerau terfynol y contract yn amrywio yn dibynnu ar y math o gontract. |